

Brawf Tawe: Cyflwyniad

Mae'r wefan hon yn nodi *cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol* afon Tawe yn gynaliadwy, sef cyfleoedd sy'n deillio o Brawf Tawe. Mae'r cyfleoedd wedi'u cyflwyno ar ffurf gwefan ryngweithiol (<http://arcg.is/2kZWggB>). Byddwch yn darganfod llawer o wybodaeth i'w harchwilio gan gynnwys: mapiau, fideos ac adroddiadau

Ar ochr dde'r wefan, byddwch yn gweld testun cryno i bob adran (sgroliwch i lawr i weld mwy o destun) a bydd modd lawrlwytho'r holl destun ar y diwedd. Bydd testun sy'n *drwm* neu *wedi'i danlinellu* yn arwain at fwy o wybodaeth ar ochr chwith y sgrin. Mae'r mapiau a'r cynnwys yn rhyngweithiol, felly ewch ati i'w harchwilio.

Rydym wedi dylunio'r wefan i'w defnyddio yn ei chyfanrwydd neu fel lle i chwilio am dystiolaeth, gwybodaeth a syniadau. Beth am wneud paned, a threulio ychydig o amser yn llywio'r wefan i ddarganfod mwy am reoli adnoddau naturiol y Tawe yn gynaliadwy.

